# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) and N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau)

861 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

862 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

863 DIWEDDARIAD GAN GLAM A’R RHWYDWAITH STAFF LLEIAFRIFOEDD ETHNIG –

Dechreuodd y cyflwyniad gyda diweddariad gan Rwydwaith GLAM , pan roddodd Cadeirydd Dros Dro y Rhwydwaith yr amlinelliad canlynol i'r Pwyllgor:

- GLAM oedd Rhwydwaith Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer staff LGBTQ a’u cynghreiriaid, a lansiwyd ar 23 Ionawr, 2019 yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Dyma oedd themâu allweddol y Rhwydwaith:
    - Yr Effaith ar y Gweithle,
    - Gwelededd ac Ymwybyddiaeth, a
    - Cymdeithas a Chefnogaeth.
- Roedd GLAM wedi'i drefnu i sicrhau lefel uchel o effaith, ond heb ofyn am lawer o amser gan yr aelodau.
- Fodd bynnag, yn ddiweddar roedd y Cadeirydd blaenorol wedi gadael y Cyngor ac roedd y Rhwydwaith wedi colli dau brif swyddog allweddol

arweiniol, a effeithiai ar y themâu / ffrydiau gwaith uchod y oedd y Rhwydwaith yn eu trafod.

- Oherwydd hynny, roedd y Cadeirydd dros dro wedi bod yn ailystyried strwythur y Rhwydwaith i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.
- Hefyd, er gwaethaf yr heriau'n gysylltiedig â COVID-19, roedd y Rhwydwaith yn dal wedi gallu cynorthwyo'r Rhwydwaith Amrywiol a helpu'r Cyngor i hwyluso ceisiadau Stonewall. Nodwyd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd yn y maes hwn, a nodwyd meysydd eraill lle bu gwelliant hefyd. Roedd y Rhwydwaith yn disgwyl canlyniadau'r cylch diweddaraf, a ddylai gael ei gyhoeddi yn ystod y mis yma.
- O ran aelodaeth, roedd y Rhwydwaith yn cynnwys 40 o aelodau a chynghreiriaid. Er bod y Rhwydwaith wedi colli nifer o aelodau, roedd aelod newydd wedi ymuno ac roedd y Rhwydwaith yn gobeithio y byddai'r duedd hon yn parhau, ac yn ystyried gwella'r trefniadau i olrhain aelodau a chadw'r wybodaeth honno'n gyfredol.
- Roedd y Rhwydwaith yn ceisio gwella ei ymgysylltiad â staff a chynyddu'r aelodaeth (yn enwedig oherwydd effaith y pandemig a gweithio o bell) drwy lwyfannau ymgysylltu eraill gyda chymorth cydweithwyr Gwella Busnes. Byddai hyn yn cynnwys, pan fyddai sefyllfa COVID-19 yn caniatáu, ail-lansio digwyddiadau cyhoeddus a chymdeithasol fel Barry Pride.
- Byddai'r uchod yn cael ei gyplysu ag ail-lansiad 'meddal' o strwythur llywodraethu'r Rhwydwaith, gan gynnwys cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol GLAM yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael â cherrig milltir corfforaethol blynyddol, ailwampio'r ffrydiau gwaith cyn cynnal etholiadau ar gyfer yr Arweinwyr, yn ogystal â gwahodd diddordeb. hyrwyddwyr o feysydd gwasanaeth penodol i gynrychioli Rhwydwaith GLAM ymhlith timau'r Cyngor a chreu sianel ar gyfer ardaloedd anos eu cyrraedd a staff rheng flaen.
- Roedd GLAM wedi cefnogi sesiynau hyfforddi newydd i reolwyr ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac wedi helpu cydweithwyr ehangach ac aelodau Rhwydwaith i gyrchu'r offer arbenigol a hyrwyddir drwy Stonewall a sefydliadau eraill
 tebyg. Roedd y Tîm Cyfathrebu wedi bod yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus GLAM, h.y. y defnydd o ragenwau mewn llofnodion e-bost ac
 ail-lansio logo GLAM.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson fod y cyflwyniad hwn yn amserol iawn gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod Mis Hanes LGBT, a'i bod yn dda gweld staff Cyngor Bro Morgannwg yn ymwneud â digwyddiadau LGBTQ+ ac yn tynnu sylw at GLAM, a fyddai'n dychwelyd gobeithio pan fyddai modd cynnal digwyddiadau cymdeithasol graddfa fawr unwaith eto. Atebodd Cadeirydd dros dro GLAM y byddai'r Rhwydwaith yn darparu rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau, ac ati, ac y gallai'r Aelodau gysylltu ag ef os oeddent am gael rhagor o wybodaeth.

Yna rhoddodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Rhwydwaith Amrywiol y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor, gan esbonio:

- Bod y Rhwydwaith wedi cael ei 'ailfrandio' yn ddiweddar, gan gynnwys ei ail-enwi'n 'Rhwydwaith Amrywiol'.
- Roedd y Rhwydwaith Amrywiol wedi dechrau ym mis Ionawr 2021, yn ystod y pandemig, ond er gwaethaf hynny roedd wedi gwneud cynnydd da. Roedd yn agored i unrhyw un o weithwyr y Cyngor a oedd yn cefnogi ei nodau, gan gynnwys sicrhau effaith gadarnhaol er budd cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn y gwaith, ac o ran sicrhau mwy o gynrychiolaeth i leiafrifoedd ethnig wrth redeg y Cyngor. I'r perwyl hwn, un o'r nodau allweddol oedd i'r Cyngor fod mor hygyrch ag sy'n bosibl i ymgeiswyr a chyflogeion o gefndiroedd lleiafrifol, ac felly'n 'gyflogwr delfrydol' er mwyn denu a chadw talent drwy ymrwymiad gwirioneddol a gweladwy i gydraddoldeb hiliol a chynhwysiant.
- Cenhadaeth y Rhwydwaith Amrywiol oedd 'cael ein clywed, newid y drefn a gwneud gwahaniaeth'.
- Roedd y Rhwydwaith wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor ac yn cynnig hyfforddiant perthnasol i Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion (hy, hyfforddiant ymwybyddiaeth hil a gwrth-hiliaeth) a hefyd yn annog diwylliant cydweithredol a sgwrsiol ar faterion o'r fath ar draws y Cyngor.
- Roedd y Rhwydwaith wedi dechrau codi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at ei waith a sicrhau ei fod yn bresenoldeb gwirioneddol a sylweddol, yn hytrach nag ymdrech docenystaidd yn unig.
- Yn ddiweddar, roedd y Rhwydwaith, fel GLAM, wedi cynnal ymarfer ailwampio ac yn gwneud yn siŵr bod y bobl gywir yn aelodau a hynny am y rhesymau cywir. Roedd hefyd wedi sicrhau 'lle diogel' i aelodau gynnal sgyrsiau a allai fod yn anodd mewn modd cadarnhaol ac adeiladol.
- Byddai'r Rhwydwaith yn helpu i sbarduno a chynnal momentwm yr agenda cydraddoldeb hiliol, gyda'r gwaith hwn wedi'i alinio â'r agenda cydraddoldeb hiliol, a deialog agored a chyfarfodydd rheolaidd o fewn y Rhwydwaith a fyddai o gymorth i gefnogi hyn ac i gadw ar y blaen i unrhyw faterion a ddeuai i'r amlwg.
- Yn ddiweddar cymerodd y Rhwydwaith ran mewn cyfarfod ‘lle diogel’ yn rhan o Wythnos Cydraddoldeb Hiliol, gan gyfarfod â’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr i gael trafodaeth agored a gonest am hil a chytuno ar nifer o gamau gweithredu, hy darparu hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth hiliol a rhagfarn ddiarwybod a chynyddu amlygrwydd cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y gwaith a gyflawnir gan grwpiau fel Rhwydweithiau Amrywiol a GLAM, yn enwedig o ran cynnig llefydd diogel i aelodau allu trafod materion cysylltiedig yn onest ac yn agored, ond bod y ddau Rwydwaith wedi cymryd camau breision i sicrhau'r rhain ac yn gwneud cynnydd mewn meysydd eraill.
- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson y mater canlynol:
    - O ran cynnwys y ddau Rwydwaith yn rhan o gwrs sefydlu a chylch hyfforddi Cynghorwyr newydd Bro Morgannwg ar ôl yr etholiadau,

esboniwyd bod hyn wedi'i godi yn barod yn y cyfarfod lle diogel a gynhaliwyd yn ddiweddar, ynghyd ag ymrwymiad hefyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogeion presennol.

- O ran sut roedd y Rhwydwaith Amrywiol yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru yn ogystal â thargedau a nodau corfforaethol, dywedwyd y byddai'r Rhwydwaith yn ailedrych ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru ac yn canfod beth mae'n ei olygu i aelodau fel gweithwyr yn eu rolau amrywiol. Byddai hefyd yn edrych ar lefydd diogel a'r angen i gyrraedd y nod o greu Cymru sy'n weithredol yn erbyn hiliaeth. Byddai hyn hefyd yn cynnwys deialog dwy ffordd rhwng rheolwyr a chyflogeion ynghylch y Cynllun Gweithredu.
- O ran cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol ethnig o fewn y gweithlu, roedd hi'n bwysig cadw staff o grwpiau lleiafrifol yn y lle cyntaf drwy sicrhau cynghreiriaid o fewn y Cyngor a meithrin eu hymdeimlad o 'berthyn'. Roedd nifer y staff lleiafrifol ethnig o fewn y Cyngor yn gymharol isel, ac roedd canfod y dull gorau o fonitro hyn yn anodd gan fod ymgeiswyr, o bosib, yn amharod i nodi eu cefndir ethnig wrth ymgeisio am swyddi o fewn y Cyngor, a byddai hyn hefyd yn effeithio ar y ffigurau hynny.

- Mewn perthynas ag ymholiad y Cynghorydd Drake ynghylch a oedd gan y Rhwydwaith Amrywiol gysylltiadau â grwpiau tebyg o Gynghorau eraill yng Nghymru, esboniwyd mai'r ffocws ar hyn o bryd oedd datblygu'r Rhwydwaith yn fewnol a mabwysiadu ymagwedd 'penodol i'r Fro', gan feithrin perthnasoedd â chynghreiriau ac Undebau Llafur o fewn y Cyngor i sicrhau eu bod yn cefnogi nodau ac uchelgeisiau'r Rhwydwaith. Yn ogystal â hynny, gallai fod gan Gynghorau a sefydliadau â rhwydweithiau tebyg agendâu, amgylchiadau a strategaethau gwahanol iawn, a allai gyfyngu ar y posibilrwydd o gydweithio ar hyn o bryd.
- Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio sylwadau blaenorol ar hyfforddi Aelodau Etholedig newydd ynghylch rôl y Rhwydweithiau a’r materion yr oeddent yn eu codi, a hefyd sut i fwrw ymlaen â'r materion hynny. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd nodi digwyddiadau allweddol yn y calendr ar gyfer y grwpiau hyn a defnyddio symbolau fel baneri enfys i ddangos bod y Fro yn Awdurdod croesawgar a chynhwysol. Agwedd hollbwysig oedd yr angen i'r Cyngor gydweithio'n agos â'r Rhwydweithiau er mwyn sicrhau newid a chynnydd mewn modd cydgysylltiedig.
- Roedd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol yn dymuno adleisio'r pwynt a godwyd ynghylch tangynrychiolaeth rhai grwpiau lleiafrifol allweddol o fewn y Cyngor yn gyffredinol, a'r ffaith nad oedd y data ar hyn mor gywir ag y gallent fod. Roedd y Cyngor yn ymroi i ddatrys sut y gallai wella ei setiau data ar y cyd â'r Rhwydweithiau, a hefyd yn gweithio i ddatblygu strategaeth ddenu'r Cyngor i recriwtio, dethol a phenodi staff o grwpiau nodweddion gwarchodedig. Byddai Rhwydwaith Anabledd Staff hefyd yn cael ei sefydlu yn y dyfodol agos, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wahodd aelodau i ymuno.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried cyflwyniadau’r ddau Rwydwaith a phob mater a phob goblygiad sydd ynddynt,

ARGYMHELLWYD – BOD y cyflwyniad gan Rwydwaith GLAM a'r Rhwydwaith Amrywiaeth Staff (y Rhwydwaith Staff Lleiafrifol Ethnig gynt) yn cael ei nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

864 STRATEGAETH DDRAFFT AR GYFER CYFRANOGIAD Y CYHOEDD (CYF) –

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 24 Ionawr, 2022 gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes a'r Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, gan amlinellu prif ysgogiadau, amcanion, egwyddorion, gweithrediadau a chamau'r strategaeth ddrafft:

- Roedd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn esbonio'n glir wrth ddinasyddion Bro Morgannwg sut roedd y sefydliad yn gweithio i wella cyfranogiad y cyhoedd, ac i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd drafft o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2022-25 wedi cael ei lunio.
- Roedd y Cyngor wedi cael adborth sylweddol gan drigolion ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhan o ymgyngoriadau blaenorol. Ailedrychwyd ar yr ymgyngoriadau hynny i weld sut y gellid ymgorffori'r agwedda hynny yn y Strategaeth hon, i wella'r berthynas rhwng y Cyngor a'r trigolion, a gwella eu hargraff o'r Cyngor fel sefydliad.
- Yn ei hanfod, roedd y Strategaeth yn ceisio moderneiddio'r ffordd roedd y Cyngor yn cyfathrebu â thrigolion y Fro a sicrhau y gallai cynifer o drigolion y Fro gymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cyngor, gan wneud y prosesau hynny'n fwy tryloyw a hygyrch a sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael gwrandawiad clir.
- Yr hyn a oedd yn hanfodol er mwyn i'r Strategaeth lwyddo oedd fod y Cyngor yn rhoi adborth i'r bobl a roddodd o'u hamser i ymgysylltu â nhw neu i rannu eu safbwyntiau, nid yn unig i ddweud diolch, ond er mwyn iddynt allu deall canlyniad eu cyfranogiad. Byddai hyn yn ei dro yn cynnal eu hymgysylltiad â'r Awdurdod ac yn fodd i sicrhau eu bod yn parhau i helpu i lywio'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud.
- Cafodd y Strategaeth ei llywio hefyd gan adolygiad manwl o arfer gorau gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat, a chan yr angen i ddefnyddio gwahanol ddulliau o ymgysylltu, hy ymarferion ymgysylltu ar lefel gymunedol, mwy o ddefnydd o offer ymgysylltu digidol a defnyddio dulliau traddodiadol wyneb yn wyneb yn ogystal â dulliau mwy modern o ymgynghori a phleidleisio, ee drwy Zoom, Twitter a gweminarau.
- Dyma rai o'r prif gamau dilynol a fyddai'n cael eu cymryd:
  - Datblygu ymhellach ddulliau ymgysylltu, adborth a hyrwyddo ar-lein, 'heb adael yr un llais ar ôl' o fewn y gymuned.
  - Datblygu methodoleg ar gyfer y ffordd orau i'r Cyngor roi adborth ar ganlyniad ymgysylltu, hy, rhestrau'r cyfryngau cymdeithasol a phost.

- O ran y camau nesaf, byddai'r ymgynghoriad ar y Strategaeth yn dod i ben ar 8 Mawrth, ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 14 Mawrth. Y nod wedyn fyddai lansio'r Strategaeth newydd ar 9 Mai.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymgyngoriadau ac ymgysylltu'n ehangach â'r cyhoedd, dywedodd y Cynghorydd Carroll ei bod yn bwysig i'r Cyngor sicrhau bod yr holl unigolion perthnasol yn cael gwybod amdanynt. Dylid esbonio hefyd wrth y bobl hynny sut y gallent gyfrannu, er mwyn sicrhau nad oeddent yn dod wyneb yn wyneb â 'fait accompli', o ran y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud, a bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried.
- Dywedodd y Cynghorydd Sivagnamam fod y Strategaeth yn fan cychwyn da i sicrhau mwy o gynhwysiant, a bod angen annog pobl ifanc i gymryd rhan a chyfrannu at ymgyngoriadau. Yr her allweddol yma oedd cael digon o adnoddau i ymgysylltu mwy â'r cyhoedd, a'r angen i fynd y tu hwnt i'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, drwy gyfarfod pob wyneb yn wyneb mewn cymunedau na fyddai ganddynt fel arfer unrhyw ddiddordeb yn y Cyngor. Efallai y dylid ystyried ymgysylltiad cymunedol fel pwysau o ran costau oherwydd ei bwysigrwydd i'r Cyngor, a bod yn ystyriol o'r angen i sicrhau adnoddau ar gyfer hyn.
- Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson fod hyn yn fater parhaol, sef sut orau y gallai'r Cyngor ymgysylltu â'r trigolion, a holodd beth oedd nodweddion ymgysylltu 'da', gan nad oedd y cyhoedd ond fel arfer yn cyfranogi pan oeddent yn anhapus neu'n rhwystredig ynghylch cynigion neu benderfyniadau'r Cyngor. Y cwestiwn canolog oedd sut roedd y Cyngor yn ymgysylltu er mwyn sicrhau bod ganddo wybodaeth well yn sail i safbwyntiau polisi, a mesur sut roedd y cyhoedd yn teimlo am bolisïau ac ati, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth yn y meysydd hyn. O ran ymgyngoriadau statudol hefyd, roedd yn rhaid gweithredu'r rhain, ond nid oeddent ond yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gytuno neu anghytuno â phenderfyniad a oedd yn cael ei wneud, heb iddynt gyfrannu neu wneud unrhyw benderfyniad pellach.
- Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio at enghreifftiau lle bu'r Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n llwyddiannus â'r cyhoedd. ee y Pecyn Cymorth Mapio Cymunedol ar wefan y Cyngor a ddefnyddiwyd gan y gymuned yn Sain Tathan i ddatblygu gwasanaethau lleol a darparu cyfleusterau a gweithgareddau chwarae. Ychwanegodd y dylai ymgysylltu olygu cydgynhyrchu effeithiol rhwng y Cyngor a chymunedau.
- Roedd yr Arweinydd hefyd yn dymuno pwysleisio ei bod yn bwysig sicrhau cyfranogiad y cyhoedd er mwyn gofyn am safbwyntiau trigolion ynghylch opsiynau polisi amrywiol (gan amlinellu'r opsiynau a oedd yn cael eu ffafrio) drwy wrando ac ystyried eu syniadau a'u pryderon yn rhan o hynny. Byddai'r strategaeth newydd o gymorth i sicrhau bod y broses ymgynghori'n deg a chyfartal.
- Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor ystyried safbwyntiau pobl ac edrych ar faterion o bob cyfeiriad wrth annog y cyhoedd i gyfranogi ac ymgysylltu, ac i greu cysylltiadau â phobl iau a grwpiau cynrychioliadol,

yn ogystal â defnyddio technoleg fel rhaglen 'Next Door' i edrych ar faterion carreg drws fel parcio.

- Dywedodd y Cynghorwyr Dr. Johnson a John fod angen cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth trigolion ynghylch yr hyn y gallai, ac na allai, y Cyngor ei wneud er mwyn llywio sylwadau ac awgrymiadau'r trigolion yn well wrth ymgynghori ac ymgysylltu â'r Cyngor yn y dyfodol. Gofynnwyd hefyd ynghylch y broses e-ddeisebau arfaethedig, a'r angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r grwpiau hynny na allent ddefnyddio neu gael mynediad at dechnoleg ddigidol, ac a allai fod â'r mwyaf o angen.
- Ymatebodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid i'r ymholiadau uchod, gan dynnu sylw at y canlynol:
  - Cafwyd ymgysylltu sylweddol eisoes â phobl ifanc ynghylch y Cynllun Cyflawni Blynyddol;
  - Ni fyddai dulliau ymgysylltu a chyfranogi wedi'u cyfyngu i gyfryngau digidol yn unig. Roedd hyn yn un agwedd yn unig ar yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud (ac roedd y grŵp oedran 55 i 74 oed mewn gwirionedd ymhlith y prif grwpiau a oedd yn cyfranogi'n ddigidol) er mwyn ymgysylltu. Cyfeiriodd at enghraifft o Bod Bwyd Penarth, a oedd yn cynnig dull anffurfiol ond uniongyrchol o gael barn trigolion am faterion amrywiol;
  - O ran yr adnoddau a'r pwysau o ran costau wrth geisio sicrhau cyfranogiad y cyhoedd, byddai rhywfaint o adnoddau ychwanegol ar gael, ee o fewn y Tîm Cyfathrebu, ac roedd cydweithwyr o fewn y Gwasanaeth Adfywio wedi cyflwyno achos pwysau o ran costau yn rhan o gyllideb refeniw y flwyddyn nesaf er mwyn ceisio cynyddu'r capasiti o fewn rhai o'r timau hynny.
  - O ran nodweddion ymgynghori 'da', byddai'r Strategaeth yn fodd i fonitro cyfranogiad y cyhoedd, a fyddai'n sail ar gyfer pennu'r nodweddion posibl ymgynghori da;
  - Yn olaf, o ran e-ddeisebau, roedd y Cyngor ar ganol pennu'r trefniadau terfynol o ran y darparydd meddalwedd a fyddai'n eu cynnal. Byddai rhagor o wybodaeth yn dod i'r amlwg ar ôl dechrau rhoi'r rhaglen ar waith.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD – BOD y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Ddrafft yn cael ei nodi.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

Mewn perthynas â’r adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

865 POLISI TÂL 2022/2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd gan y Cabinet ar 14 Chwefror. Cyn ystyried yr adroddiad, gadawodd yr holl Brif Swyddogion y cyfarfod ar wahân i'r Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyflogeion. Penderfynwyd y byddai'n aros i gyflwyno'r

adroddiad ac esbonio unrhyw bwyntiau os oedd angen. Arhosodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu hefyd i gefnogi'r cyfarfod, a rhoddodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu gymorth technegol yn y cefndir.

O dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, roedd hi'n ofynnol yn statudol i'r Cyngor baratoi datganiad polisi cyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol newydd 2022/23. Roedd angen cymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad erbyn 31 Mawrth, 2022. Roedd y ddogfen yn cynnig fframwaith i sicrhau bod cyflogeion yn cael eu gwobrwyo mewn modd teg a gwrthrychol, yn unol ag anghenion gwasanaeth y Cyngor, a bod y broses yn agored a thryloyw.

Tynnodd y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyflogeion sylw at brif bwyntiau a diweddariadau'r adroddiad:

- Roedd trafodaethau negodi'n dal i gael eu cynnal ar gyfer cynnydd cyflogau llyfr gwyrdd y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (JNC). Roedd hyn yn cynnwys tua 4,000 o staff y Cyngor. Byddai unrhyw gytundeb yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2021. Roedd hi'n ymddangos mai 1.75% fyddai'r codiad hwn ar hyn o bryd, ond roedd hynny'n dal heb ei gymeradwyo'n genedlaethol. Dim ond yn ddiweddar y cytunwyd ar godiad cyflog Prif Swyddogion y JNC (a fyddai hefyd yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2021), a byddai'r adroddiad yn cael ei ddiweddaru'n unol â hynny cyn iddo fynd i'r Cyngor Llawn.
- O ddadansoddi'r Prif Swyddogion ar sail rhyw, roedd ychydig dros 50% ohonynt yn ddynion ac ychydig llai na 50% yn fenywod. Ar ôl i'r Cyfarwyddwyr newydd gael eu recriwtio, byddai manylion cydbwysedd y rhywiau'n cael eu diweddaru. Roedd y dadansoddiad cyfredol yn wahanol i gyfansoddiad cyffredinol gweithlu'r Cyngor, lle'r oedd tua 70% yn fenywod a 30% yn ddynion.
- Rhoddwyd amlinelliad o'r sgoriau a'r broses asesu ar gyfer Prif Swyddogion, gyda'i graddfa cynyddrannol, a'r ffaith bod angen i Brif Swyddogion arddangos perfformiad da neu ragorol i symud i fyny'r raddfa gyflog.
- O ran taliadau etholiad, roedd Prif Weithredwr y Cyngor wedi'i ddynodi'n ffurfiol yn Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Etholiadol a Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau yn barhaus o 7 Rhagfyr, 2021.
- O ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, roedd y bwlch hwnnw wedi lleihau ac felly wedi gwella'n fawr dros y pedair blynedd diwethaf, gyda gwelliannau i'r strwythur cyflogau, ac wrth symud i ffwrdd o Bwynt Colofn Gyflog 1.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, gofynnodd y Cynghorwyr Dr Johnson a Drake y canlynol:

- Pwy oedd yn cael ei gyfrif/ddim yn cael ei gyfrif fel Pennaeth Gwasanaeth i ddibenion graddio/bandio cyflogau (hy, ar lefel Rheolwr Gweithredol yn lle hynny). Esboniwyd bod y Datganiad Cyfrifon yn cyfeirio'n rhannol at hyn, ond y byddai gwybodaeth a manylion ychwanegol am hyn yn cael eu cyflwyno mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- O ran ailgyflogi pobl a oedd gynt yn cael eu cyflogi gan y Cyngor, a pha mor aml yr oedd hynny'n digwydd, nid oedd llawer o achosion o hyn dros y tymor byr, a byddai'r Aelodau'n cael rhagor o wybodaeth am hyn gan edrych ar gyfnod o 12-18 mis.
- O ran sut y cyfrifwyd ffigurau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, roedd yn rhaid defnyddio cyfrifiadau a chanllawiau penodol a chenedlaethol, hy, byddai angen i sefydliad sector cyhoeddus â mwy na 250 o staff gyfrifo ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, roedd ysgolion wedi'u hepgor o gyfrifiadau'r Cyngor, gan fod ganddynt eu cyrff llywodraethu eu hunain. Defnyddiwyd cyflog cymedrig/cyfartalog Cyfwerth ag Amser Llawn y staff i gyfrifo'r ffigurau.
- O ran y gwelliannau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn y Cyngor a beth arall y gellir ei wneud i wella hyn, roedd y Cyngor bob amser yn ceisio lleihau neu lefelu'r bwlch cyflog, ond roedd heriau o hyd o ran cyflawni hyn, hy, i raddau cymesur, roedd mwy o fenywod mewn rolau a oedd ar raddfa / gyflog is na dynion o fewn y Cyngor.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD – BOD Polisi Cyflog 2022/23 yn cael ei nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

866 STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG (PW) –

Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio barn y Pwyllgor ar ddrafft Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 yn dilyn cyfnod o asesu ac ymgynghori, a cheisio barn yr Aelodau ynghylch y Cynllun Gweithredu arfaethedig. Ar ôl i'r Aelodau eu hystyried, byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu cyfeirio i Gabinet y Cyngor er ystyriaeth ochr yn ochr â'r dogfennau isod, mewn cyfarfod lle byddai cymeradwyaeth yn cael ei cheisio ar gyfer y dogfennau, gyda gwaith ar y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn dechrau o 1 Ebrill 2022.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes a Dai Thomas o Cwmni2, cwmni ymgynghori a oedd wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor dros y misoedd diwethaf i ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a amlinellai'r canlynol:

- Adroddiad yn manylu ar y gweithgarwch ymgynghori a gynhaliwyd a chanlyniadau'r gweithgarwch hwnnw (Atodiad A yr adroddiad). Roedd yr adborth yn weddol gymysg, gydag oddeutu hanner yr ymatebwyr yn cwestiynu a oedd angen strategaeth o gwbl. O blith yr ymatebwyr eraill, roedd yr adborth yn berthnasol i feysydd allweddol, ee y dylid rhoi cyfle i'r Gymraeg ffynnu ac y dylai gael ei thrin yn gyfartal â Saesneg, ac y dylid cael mwy o gyfleoedd i oedolion a phlant gyrchu darpariaeth a hyfforddiant

yn Gymraeg, a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol fel iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o Strategaeth Hybu'r Gymraeg bum mlynedd (2017-22) gyfredol, yn dilyn cyfnod ymgynghori (Atodiad B yr adroddiad).
- Strategaeth Hybu'r Gymraeg bum mlynedd wedi'i diweddaru, yn dilyn cyfnod o ymgynghori (Atodiad C yr adroddiad).
- Cynllun Gweithredu i fynd ar drywydd yr amcanion a'r ymrwymiadau a geir yn y Strategaeth (Atodiad D yr adroddiad)
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn gysylltiedig â'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad E yr adroddiad).

Roedd hyn yn ofyniad statudol ac roedd dyletswydd ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi strategaeth bum mlynedd, yn nodi sut roedd y Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg yn ei ardal o dan Safonau'r Gymraeg (safonau 145 a 146).

O ran y Cynllun Gweithredu, codwyd y prif bwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- O gymharu â'r cynllun pum mlynedd blaenorol a sefydlwyd yn wreiddiol, roedd mwy o ffocws i'r Cynllun Gweithredu, a gafodd ei gynhyrchu ar sail adborth gan y cyhoedd, a hefyd gan Swyddogion Cyngor, Aelodau Etholedig a phartneriaid fel y Fforwm Iaith (fforwm Cymraeg y Fro).
- Mae fersiwn gyfredol y Cynllun wedi cael ei diweddaru i gyd-fynd â'r tair thema yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Roedd nifer o gamau gweithredu o'r Cynllun blaenorol, yn ogystal â rhai newydd, wedi cael eu cyfuno a'u gosod o dan y tair thema honno er mwyn gwella'r trefniadau adrodd a gwneud y Cynllun yn fwy hygyrch.
- Yn rhan o'r asesiad cysylltiedig, nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn dda am gasglu data, ond bod y defnydd o ddata mewn adroddiadau yn amrywio. O ganlyniad i hyn, roedd y Cynllun Gweithredu bellach yn cynnwys mwy o ffocws ar gydgasglu'r data hynny i'w cyflwyno mewn modd mwy unffurf neu gyson. Roedd hi'n bwysig bod holl bartneriaid y Cyngor a oedd yn ymwneud â hyn yn mabwysiadu'r targed a'r ymagwedd hon er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.
- Roedd colofn arall wedi cael ei hychwanegu at y Cynllun newydd, yn dangos cysylltiadau ar gyfer pob cam gweithredu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, a sut roedd camau gweithredu yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cyfrannu at amcanion corfforaethol ac amcanion llesiant y Cyngor.
- Roedd mwy o ffocws hefyd ar oedolion ifanc ac ar ailhyfforddi oedolion a oedd yn ymuno â'r gweithlu. Er enghraifft, roedd llawer mwy o ffocws ar y Gymraeg fel sgìl cyflogaeth.
- Ar sail pryderon a godwyd yn flaenorol yn y Pwyllgor hwn ynghylch monitro pobl o leiafrifoedd ethnig a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol eraill o fewn addysg cyfrwng Cymraeg, roedd camau gweithredu bellach wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu newydd a oedd yn adlewyrchu pryderon o'r fath drwy anelu i gasglu data gwell ac i ymgysylltu gwell, ac i hyrwyddo targedau yn gysylltiedig a hybu addysg cyfrwng Cymraeg.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd John at yr her o hybu a dysgu Cymraeg oherwydd bylchau wrth ddysgu a siarad yr iaith. Amseroedd tymhorau ysgolion oedd wrth wraidd hyn, ynghyd â'r ffaith nad oedd y Gymraeg o reidrwydd yn cael ei siarad y tu allan i amgylchedd yr ysgol, ee gartref gyda pherthnasau neu ffrindiau. Roedd hi'n dda gweld bod y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â'r mater olaf, ac efallai fod angen cynnal 'grwpiau trafod' anffurfiol i blant ac oedolion sy'n dysgu siarad Cymraeg y tu allan i'r tymor ysgol neu goleg, er mwyn datblygu a chynnal eu rhuglder. Roedd hi'n bwysig hefyd i'r rhieni di-Gymraeg a anfonai eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg gael eu hannog i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg eu hunain gartref.
- Teimlai'r Cynghorydd Dr. Johnson fod y Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio'n fanylach ar yr hyn y gellir ei gyflawni dros y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, credai fod rhai targedau o fewn y Cynllun Gweithredu yn rhy 'gyffredinol', ac yn ddelfrydol, dylai'r Cyngor ystyried troi rhai o'r targedau hyn yn dargedau mwy lleol ac wedi'u hymwreiddio'n fwy, gan gyd-fynd ag amgylchiadau penodol o fewn y Fro, yn y dyfodol. Gofynnodd hefyd ai pwrpas y targedau oedd asesu anghenion y dyfodol neu 'ysgogi' yr anghenion hynny, ac nid oedd yn ymddangos fel pe bai unrhyw gyfeiriad at RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), yn enwedig yn sgil y sylwadau blaenorol ynghylch amddifadedd a grwpiau du a lleiafrifol ethnig, a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Roedd angen mwy o bwyslais yn y ddogfen ar gynnwys rhieni mewn addysg Gymraeg, a chododd y posibilrwydd o sefydlu fersiwn sirol o RhAG er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau allweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, fel problemau trafnidiaeth i'r ysgol neu wrth symud o'r naill fath o addysg ffurfiol i fath arall, er enghraifft o flwyddyn 6 i 7 (cynradd i uwchradd).
- Dymunai'r Cadeirydd ailbwysleisio'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau uchod, a'r angen i gynnwys ac ymgysylltu mwy â rhieni wrth hybu'r Gymraeg, ac i sicrhau nad ydynt yn teimlo wedi'u cau allan o'r broses hon, hy, rhai o gefndir cwbl Saesneg. Yn ogystal â hyn, roedd angen symud y defnydd o'r Gymraeg o amgylchedd addysg ffurfiol i amgylchedd mwy anffurfiol. Gallai hyn fod gartref neu yn y maes chwarae, er enghraifft. Awgrymodd y Cadeirydd ffyrdd o hybu'r Gymraeg yn anffurfiol, ee drwy glybiau neu grwpiau cymdeithasol anffurfiol i siarad Cymraeg 'sgyrsiol' gan gynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol yn rhan o hynny. Dylid hefyd ymchwilio i wersi siarad Cymraeg i Gynghorwyr a Swyddogion o fewn Cyngor Bro Morgannwg.
- Mewn ymateb i'r uchod, dywedodd yr ymgynghorydd o Cwmni2:
    - Ynghylch y ffaith bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n bennaf mewn amgylchedd ysgol, a heb fod yn cael ei defnyddio mor aml gartref neu'n anffurfiol, roedd hyn bellach yn rhan o'r pwyslais ychwanegol neu gryfach ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac ymhlith y teulu yn rhan o thema 2 y Cynllun Gweithredu, yn enwedig ymhlith oedolion ifanc ar ôl gadael yr ysgol neu fyd addysg, ac i symud i ffwrdd oddi wrth y syniad mai 'iaith ysgol' yn unig yw'r Gymraeg.
    - O ran natur 'gyffredinol' rhai o'r camau o fewn y Cynllun, esboniwyd mai rheswm rhannol am hyn oedd bod llawer o debygrwydd rhwng y

camau gweithredu a osodir gan Gynghorau â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg (fel y Fro), gan fod pob un o'r Cynghorau hynny'n mynd drwy'r un broses o gynyddu'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.  Hefyd, roedd y Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys nifer o gamau'n gysylltiedig â gwaith partneriaeth, nid yn lleol yn unig, ond yn rhanbarthol a chenedlaethol hefyd, ac roedd y camau hynny wedi cael eu hychwanegu fel y gallai'r Cyngor gopïo arfer da hefyd.

- O ran RhAG, esboniwyd nad ydynt yn darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yn y modd y mae'r partneriaid a restrwyd yn y cynllun pum mlynedd yn ei wneud.  Dyma'r rheswm pam nad oeddent wedi cael eu henwi fel partner yn y Cynllun Gweithredu, gan na fyddent yn gyfrifol am gyflawni camau o dan y cynllun.  Fodd bynnag, pe bai pawb yn cytuno, gellid ychwanegu RhAG fel partner posibl i rannu gwybodaeth o dan y Cynllun, ee o dan dargedau hybu.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD – BOD y Cabinet yn cael gwybod am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg, sef:

- Yr angen i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu annog y gwaith o ddysgu a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ysgolion a'r amgylchedd addysg, megis annog teuluoedd i siarad Cymraeg yn y cartref a dilyn dulliau mwy anffurfiol o addysgu'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn ogystal â'r posibilrwydd o ddefnyddio 'grwpiau trafod' anffurfiol neu debyg er mwyn parhau ac ehangu gallu trigolion y Fro i siarad a deall y Gymraeg.
- Y pwysigrwydd gynnwys ac annog cyfranogiad rhieni o gefndir di-Gymraeg sydd â phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o Strategaeth Hybu'r Gymraeg, er mwyn helpu i sicrhau ei llwyddiant.
- Yr angen i annog Aelodau Etholedig a Swyddogion  Cyngor Bro Morgannwg i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'w rolau.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

Galluogi'r Cabinet i ystyried barn y Pwyllgor Craffu wrth ystyried y mater hwn.

867 CYNLLUN CYFLWYNO BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (PW) –

Dywedodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes wrth Aelodau'r Pwyllgor fod gwall yn nheitl yr adroddiad ar yr agenda, ac mai'r teitl cywir oedd Drafft Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) Cyngor Bro Morgannwg yn hytrach na Drafft Cynllun Datblygu Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2022/23.

Pwrpas yr adroddiad oedd galluogi'r Pwyllgor i ystyried drafft Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) 2022-23 yn dilyn ymgynghoriad.

Esboniai'r adroddiad sut yr aethpwyd ati i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (Atodiad A yr adroddiad), canlyniad yr ymgynghoriad a'r newidiadau i'r Cynllun yn sgil hynny. Roedd Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022-23 yn gyson â phedwar Amcan Llesiant y Cyngor. Roedd y Cynllun yn esbonio'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2022-23 i gyflawni'r amcanion hyn. Roedd hyn yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol pum mlynedd y Cyngor a oedd yn nodi gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor yn ogystal â'r amcanion llesiant, a byddai'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (a adlewyrchir hefyd mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â thargedau gwella gwasanaethau) yn egluro sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar Amcan Llesiant, ac ati yn flynyddol.

Byddai'r camau gweithredu yn y CCB hefyd yn cyfrannu at chwe thema drawsbynciol newydd a adlewyrchai'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, ac amgylchiadau eraill, ym Mro Morgannwg.

- Prosiect Sero, a oedd yn cynnwys ymrwymiad y Cyngor i ddatgarboneiddio;
- Gallu Cymunedau, a oedd hefyd yn cynnwys grymuso, ac a oedd yn cynnwys cyfres gref o gamau o dan y thema honno;
- Caledi, gan gynnwys sut mae'r Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth yn gysylltiedig â materion ariannol, addysg, sgiliau, hyfforddiant a chymorth arall i drigolion sy'n dioddef caledi ar hy o bryd;
- Gofal a Chymorth, gyda chyfres o gamau gweithredu wedi'u gosod yn nrafft y Cynllun Cyflawni i roi gofal a chymorth i'r trigolion mwyaf agored i niwed.
- Trawsnewid, a ystyriai sut y gallai'r Cyngor newid fel sefydliad i sicrhau ei fod yn parhau i allu darparu gwasanaethau'n effeithiol yn y dyfodol; a
- Seilwaith, ee gweithredu rhaglen 'Ysgolion yr 21ain Ganrif' ac ymateb y Cyngor y raglen 'Codi'r Gwastad' Llywodraeth y DU.

Cyfeiriodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes hefyd at Atodiad B, a fanylai ar yr adroddiad ymgynghori, gan amlinellu'r dulliau a ddefnyddiwyd, y canfyddiadau a'r ymatebion, gan gynnwys yr ystyriaeth a roddwyd gan y pwyllgorau craffu, yr 88 o ymatebion i'r arolwg cyhoeddus ar draws y chwe thema, hyd at arolygon barn ar Twitter a Facebook, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd gan bobl ifanc o fewn Bro Morgannwg, a sicrhau bod fersiwn hygyrch 'hawdd ei darllen' o'r Cynllun ar gael i gynulleidfa iau ac ehangach ar ôl cwblhau a chymeradwyo'r CCB yn derfynol. Roedd yr adborth hefyd wedi'i rannu â'r Tîm Arwain Strategol a'r swyddogion perthnasol er mwyn iddynt allu defnyddio'r mewnwelediad a'r wybodaeth honno wrth ystyried penderfyniadau polisi yr oeddent am eu gwneud yn y dyfodol.

Yn olaf, rhoddodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes amlinelliad i'r Pwyllgor rai o'r newidiadau a'r diweddariadau i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan gynnwys newid tôn y rhagair a'r cyflwyniad i'r CCB er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau presennol yn gysylltiedig â COVID-19, a sefyllfa gyllidebol y Cyngor. Roedd rhai o'r ymrwymiadau'n gysylltiedig ag ymgysylltu ac ymgynghori hefyd wedi'u cryfhau a'u hymgorffori, gyda chyfeiriadau pellach at weithgareddau hamdden, ac er mwyn i'r camau yn amcan tri yn enwedig roi adlewyrchiad cywir o hamdden yng nghyd-destun diwylliant a llesiant, ac yn Amcan Pedwar cafwyd

adborth sylweddol ynghylch ymrwymiad y Cyngor i blannu coed, ac roedd cyfeiriad penodol wedi'i gynnwys yn yr adran arbennig honno yn sgil hynny.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor i'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes:

- Er bod y Cynllun Cyflawni Blynyddol a’r adroddiad yn llawer cliriach i'w darllen na fersiynau blaenorol, teimlai'r Cynghorydd Dr. Johnson y byddai’n dal yn fuddiol, oherwydd maint y dogfennau dan sylw, amlygu'r newidiadau i'r CCB a grybwyllwyd mewn rhyw fodd neu'i gilydd. O ran yr adborth a'r ymatebion i'r CCB, roedd hi'n bwysig i'r rhain fod yn 'gynrychioliadol' o'r cyhoedd yn hytrach na'r posibilrwydd bod unigolion a grwpiau penodol, a chanddynt eu hagenda penodol eu hunain yn meddiannu'r drafodaeth. Yn ogystal â hynny, roedd angen pwyso a mesur ymatebion ac adborth yn erbyn barn arbenigol, yn ogystal â'r hyn yr oedd y Cyngor yn ei wybod eisoes yn y meysydd dan sylw. Eglurwyd wedyn fod yr adroddiad cyflwyno yn cyfeirio at yr union newidiadau a wnaed i'r CCB. Yn ogystal â hyn, byddai sylwadau'r Cynghorwyr ynghylch maint y Cynllun a dogfennau eraill yn cael eu hystyried er mwyn cyflwyno CCBau a chanfyddiadau'n fwy effeithiol yn y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd natur statudol y CCB, a'r angen i fod yn dryloyw drwy roi manylion cynhwysfawr am adborth ac ati, prin oedd unrhyw gyfle i grynhoi'r CCB a'r dogfennau cysylltiedig. Gwerthfawrogwyd ei bod hi'n bosibl bod nifer yr ymatebwyr o fewn y broses ymgynghori yn gyfyngedig a heb fod yn gwbl gynrychioliadol, ond lliniarwyd ar hyn drwy ddefnyddio ystod eang o fewnwelediadau data a chanfyddiadau ymgynghori o ymarferion eraill a gynhaliwyd ynghynt yn y broses. Roedd modd 'pwysoli'r' ymgynghoriad dilynol yn erbyn y rheiny.
- Teimlai'r Cynghorydd John fod y Cynllun yn dda iawn ond cwestiynai Amcan Pedwar o'r CCB ar adolygu a gweithredu opsiynau i sefydliadau cymunedol gynnal cyfleusterau fel meysydd chwaraeon, parciau, mannau agored, rhandiroedd a chyfleusterau cyhoeddus yn rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor. Gofynnodd yn benodol am y mannau cyhoeddus hynny a oedd yn cael eu trosglwyddo yn sgil cytundebau Adran 106 â chontractwyr datblygiadau adeiladau, ac os oedd y Cyngor neu sefydliadau cymunedol eraill yn gyfrifol am y rhain, pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig eu cadw'n fannau agored i'r cyhoedd, a pha mor anodd oedd gwneud hynny o'u trosglwyddo i grwpiau preifat neu gymunedol fel clybiau Criced, Pêl Droed a Rygbi. Byddai'r ymholiad hwn yn cael ei gyfeirio'n ôl am gyngor gan swyddogion cyfreithiol y Cyngor, ond roedd hi'n bwysig nodi hefyd bod yr amcan yn trafod mwy na mannau agored cyhoeddus yn unig. Roedd hefyd yn ymwneud â'r modd yr oedd y Cyngor yn gweithio gydag ystod o sefydliadau cymunedol a grwpiau cymunedol er mwyn gallu cynnal gwasanaethau a oedd yn canolbwyntio mwy ar raddfa leol, a oedd yn ymateb i anghenion lleol, ac yn rhan o'r thema galluogi a grymuso cymunedau a oedd yn elfen gref drwy Gynllun Datblygu Blynyddol eleni.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD – BOD y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad ymgynghori (Atodiad B) ar y Cynllun drafft a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (Atodiad A) drafft wedi'i ddiweddaru yn dilyn ymgynghoriad ac i'w argymell yn llwyr i'r Cabinet i'w ystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

Cymeradwyo adborth yr ymgynghoriad a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun yn ogystal ag argymell y Cynllun i'r Cabinet i'w hystyried.

.

868 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 3YDD CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (PW) -

Pwrpas yr adroddiad, fel yr esboniodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, oedd adrodd ar gynnydd argymhellion Craffu ac ystyried fersiwn ddiweddaraf y Flaenraglen Waith, ynghyd ag unrhyw lithriant ar gyfer 2021/22.

Roedd yr adroddiad yn esbonio wrth yr Aelodau beth oedd y cynnydd yn gysylltiedig ag argymhellion blaenorol y Pwyllgor Craffu ac yn cyflwyno Amserlen y Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 i'w hystyried gan y Pwyllgor:

- Olrhain Argymhellion y 3ydd Chwarter - Hydref i Ragfyr 2021 - yn Atodiad A yr adroddiad;
- Amserlen Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 wedi'i hatodi yn Atodiad B yr adroddiad;

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu:

- Tynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson sylw at y ffaith bod Drafft Cynllun Cyflawni Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2022/23 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2022 ar y Flaenraglen Waith, ond yr oedd mewn gwirionedd wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod hwn (cyfarfod mis Chwefror) yn lle hynny. Cytunwyd i ddiwygio'r cofnod yn y Flaenraglen Waith cyn ei lanlwytho i wefan y Cyngor.
- Ar gwestiwn dilynol y Cynghorydd, sef a fyddai'r Cynlluniau Gwasanaeth a'r Targedau a Osodir yn dal i gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth fel y dangosir ar y Flaenraglen Waith, cadarnhawyd y byddai hynny'n digwydd.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad yn cael eu cytuno.

(2) BOD Blaenraglen Waith y Pwyllgor wedi'i diweddaru yn Atodiad B yn cael ei chymeradwyo a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar symud yr eitem ynghylch Cynllun Cyflawni Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 o fis Mawrth 2022 i fis Chwefror 2022 ar y Flaenraglen Waith, pan gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth.